Digimap for Schools

Sut i gyrraedd tŷ Mamgu yn ddiogel?

Peryglon yn yr amgylchedd leol

Paula Owens

Adnodd addysgu Daearyddiaeth

Cynradd

This is one of a series of teaching resources for use with Digimap for Schools. For more details about this service, visit http://digimapforschools.edina.ac.uk

Ordnance Survey

EDINA

Digimap for Schools

Adnoddau Daearyddiaeth Digimap for Schools

Teitl: Sut i gyrraedd tŷ Mamgu'n ddiogel?

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cynradd	Peryglon yn yr amgylchedd leol	Gall fod yn berthnasol unrhyw le yn y DU

Gwybodaeth	Adnabod nodweddion map syml/creu mapiau yn dangos llwybrau a nodweddion/gwybod sut i aros yn ddiogel y tu allan
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Lleoli a disgrifio rhywle yn yr ardal. Rheoli risg a chadw'n ddiogel
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Adnabod nodweddion eu hardal eu hunain. Datblygiad Personol a Chymdeithasol: Datblygu dealltwriaeth am beryglon yn yr amgylchfyd y tu allan.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd: 1-07a, 1-08a, 1-11a.

Cyflwyniad

Mae'r gweithgaredd hwn yn ffocws defnyddiol ar gyfer gweithgaredd gwaith maes, er y gellir ei wneud heb fynd allan. Chwyddwch y sgrin ar fap ac archwilio nodweddion fel strydoedd, lonydd, siopau, coedwigoedd a pharciau o gwmpas eu hysgol, gan eu hannog i feddwl am y peryglon allai godi mewn gwahanol leoedd.

Prif weithgaredd

Atgoffwch y plant o stori draddodiadol Hugan Goch Fach a'r Blaidd a dangoswch y ffilm fer a wnaed gan blant o Southborough Primary School iddyn nhw (gweler y dolenni ar y we).

Trafodwch y lleoedd aeth Hugan Goch Fach iddyn nhw yn y ffilm (coedwig, ffordd brysur, lôn gefn, gorsaf drydan a pharc chwarae) a ph'un ai oes unrhyw rai o'r nodweddion hyn wrth eich ymyl chi. Defnyddiwch fap o'ch ardal leol i'ch helpu a gofynnwch i'r disgyblion pa fathau o leoedd eraill allai fod yn beryglus. Y dasg fydd i fapio llwybr ar gyfer Hugan Goch Fach, gan enwi a disgrifio'r peryglon a geir ym mhob lle. Defnyddiwch ddelweddau o'r awyr i helpu disgyblion i archwilio'r lleoedd y maent wedi eu hawgrymu yn fwy trylwyr.

Awgrymir bod disgyblion yn geithio mewn grwpiau o bedwar neu bump ac yn chwilio am bedwar neu bump o leoedd yn yr ardal.

Gall y daflen asesu risg fod yn ddefnyddiol er mwyn i ddisgyblion gofnodi eu syniadau cyn eu gosod ar fap.

Digimap for Schools

Bydd pob grŵp yn creu map yn dangos y llwybr a'r mannau aros ar hyd y ffordd. Bydd angen i un person yn y grŵp gymryd cyfrifoldeb dros un o'r mannau aros a gallu egluro'r risg a'r gweithredu posibl allai ddigwydd yno. Rhowch amser i'r disgyblion gasglu gwybodaeth; disgrifiwch y risgau a'r gweithredu ar lafar ac yn olaf, mae'n amser i'r grŵp gydweithio a datblygu stori ar y cyd.

Gan ddefnyddio'r ysgol fel man cychwyn a man gorffen ar gyfer siwrnai ddychmygol gan Hugan Goch fach, bydd rhaid i'r disgyblion ddyfeisio taith gylchol o'r ysgol ac yn ôl i'r ysgol.

Tasgau

Gofynnwch i bob grŵp i:

1. Enwi cymaint o leoedd â phosibl ger yr ysgol a phenderfynu beth allai'r peryglon fod. Gwnewch restr o enwau a pheryglon, er enghraifft, y stryd fawr leol a ffyrdd prysur.

2. Agorwch Digimap for Schools a chwilio am eich ysgol fel y gallwch ddod o hyd i'ch ardal chi.

3 Efallai y byddant eisiau defnyddio'r 'scale bar' (bar graddfa) i chwyddo neu bellhau neu i symud y map tan eu bod yn dod o hyd i'r lleoedd y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt.

4 Marciwch eu lleoedd dewisol a'u labelu ar y map. Agorwch y bar offer 'Annotations' (nodiadau) a dewis 'Add Marker' (Ychwanegu Marciwr).



Gallan nhw ddewis marciwr a chlicio ar y map i'w osod.

Yna clicio 'Place label' (Gosod label) o'r adran 'Draw and Create' (Darlunio a Creu) ar y bar offer a dewiswch faint eich testun. Cliciwch ger y marciwr yr ydych newydd ei ychwanegu ac ysgrifennu ewn'r lle. Ailadroddwch hwn ac ychwanegu label arall yn dweud beth yw'r perygl. Neu gallwch geisio ysgrifennu enwe lle a'r perygl ar un label.

Digimap for Schools

5. Defnyddiwch ‘Draw a line’ (Tynnu llinell) i greu llwybr yn y ysgol. Pasiwch bob man peryglus gan ddiweddu yn ôl yn yr ysgol.

Mynd gam ymhellach

- Crewch fap ‘risg’ yn y dosbarth o’r ardal leol gan ddangos pob un o’r peryglon y mae’r disgyblion wedi dod o hyd iddynt a defnyddiwch hwn i greu canllaw i gadw’n ddiogel yn yr ardal leol.
- Cysylltwch hwn i’r gwaith maes a defnyddio’r gweithgaredd hwn fel paratoad asesiad risg i’r disgyblion.
- Ceisiwch osod y stori mewn ardal wrthgyferbyniol anghyfarwydd.
- Gwnewch eich ffilm eich hun gan ddefnyddio fformat stori syml am stori.
- Edrychwch yn ôl mewn amser gan ddefnyddio’r mapiau o’r 1890au a’r 1950au i weld a yw nifer a mathau’r peryglon wedi newid dros amser

Dolenni ar y we

https://www.geography.org.uk/Young-Geographers-Project--Southborough-CE-Primary-School

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2016

Mae’r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol Creative Commons Attribution

Digimap for Schools

Fy asesiad risg o'r ardal leol

Ysgrifennwch eich asesiad risg eich hun. Rhoddir enghraifft isod. Meddyliwch yn ofalus am bwy sy'n gyfrifol amdanoch yn cadw'n ddiogel.

Lle neu nodwedd	**Risg**	**Y weithred sydd ei hangen**	**Pwy sy'n gyfrifol?**
Yr heol tu allan i'r ysgol.	*Mae rhai ceir yn mynd yn gyflym iawn.*	*Arhoswch, edrychwch a gwrandewch.*	*Fi.*